Bluenowhere Ltd
Unit 36, 88-90 Hatton Garden
London, EC1N 8PN

+44 (0)844 887 0636
contact@bluenowhere.net
www.bluenowhere.net

DATGANIAD NEWYDDION

*** DAN WAHARDDIAD – hyd 00:01 a.m. DDYDD MERCHER 11eg o Awst 2010 – DAN WAHARDDIAD ***

Am ragor o wybodaeth:

Harry Aldridge, Prif Swyddog Gweithredol, **Bluenowhere**: +44(0) 7838 200 490 / harryaldridge@bluenowhere.net
Peter Curnow-Ford, Cadeirydd, **Bluenowhere**: +44(0)7973 668 131 / peter@bluenowhere.net
Davina Carey-Evans, Y Wasg Gymreig (**FibreSpeed PR),** +44(0) 1248 717 903, davina@sbarc.net

Bluenowhere yn Buddsoddi yn Nyfodol Band Llydan Cymru

Ynys Môn, 11eg o Awst 2010 - Mae Bluenowhere, sy'n newydd-ddyfodiad i farchnad y band llydan yng Nghymru, heddiw'n cyhoeddi cynlluniau i fuddsoddi yn isadeiledd band llydan diwifr y genhedlaeth nesaf, sy'n arwain technoleg, ar draws Ynys Môn ac ardal y Fenai.

Mae Bluenowhere wedi datblygu cynlluniau, fel darparwr gwasanaeth Firespeed, i sefydlu rhwydwaith mewnol band eang cyfanwerthol mynediad agored, newydd. Bydd hwn yn galluogi darparwyr gwasanaeth adwerthu, rhai newydd a rhai presennol, i gyrraedd cartrefi a busnesau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan y band llydan ar hyn o bryd neu sy'n derbyn band llydan gwael. Caiff y cynllun ei gefnogi hefyd gan Gyngor Sir Ynys Môn ac fe'i gwelir fel cam pellach tuag at wella isadeiledd band llydan Cymru, sy'n un o amcanion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Meddai Peter Curnow-Ford, Cadeirydd, Bluenowhere, "Fel rydym ni i gyd yn gwybod, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwthio'i Hymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol ('USC') o 2 Megabeit yr eiliad (Mbps) ar gyfer ardaloedd gwledig ac anghysbell o 2012 i 2015; mae'r ymrwymiad yr ydym ni'n ei gyhoeddi'n dangos yn glir y gall diwydiant preifat gyflawni'r USC heddiw gyda chefnogaeth a phartneriaeth llywodraeth leol. Tra mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn edrych ar brosiectau peilot a chaffael o'r top i lawr i wireddu'r USC o 2Mbps, fydd yn gohirio gweithredu am o leiaf flwyddyn arall, mae Bluenowhere yn symud ymlaen ac yn ei ddarparu rŵan."

Mae Bluenowhere yn awyddus i ddefnyddio "Cynllun Cefnogi Band Llydan" £2m y Cynulliad fel cyfrwng i gyflymu ac ehangu lledaeniad ei rwydwaith i gynnwys y cymunedau yn y rhanbarth sy'n llai hyfyw yn fasnachol a dod â'r band llydan o fewn cyrraedd mwy a mwy o bobl.

Bluenowhere Ltd
Unit 36, 88-90 Hatton Garden
London, EC1N 8PN

+44 (0)844 887 0636
contact@bluenowhere.net
www.bluenowhere.net

Meddai Harry Aldridge, Prif Swyddog Gweithredol, Bluenowhere, “Rydym yn croesawu’n gynnes iawn lansio ‘Cynllun Cefnogi Band Llydan’ y Cynulliad. Heddiw rydym yn gwahodd unigolion a chymunedau i fynegi eu diddordeb yn http://notspots.bluenowhere.net, fel y gallwn gysylltu ag ymgeiswyr a chynnig datrysiad i ymestyn ein rhwydwaith o’r radd flaenaf i’w cymunedau cyn gynted ag y bo modd.”

“Y band llydan bellach ydy’r “4ydd gwasanaeth” ac erbyn hyn mae cyn bwysiced â mynediad at ddŵr, trydan a nwy. Bydd y rheiny sy’n methu ag elwa ar y manteision cymdeithasol ac economaidd, y mae’r band llydan yn eu cynnig, yn cael eu cau allan fwyfwy os na chymerir camau i sicrhau ei fod ar gael. Mae Bluenowhere yn hynod o falch bod Cyngor Sir Ynys Môn yn ein cefnogi drwy wneud safleoedd y Cyngor ar gael i’n cynorthwyo i drefnu ein gwaith a thrwy ei ymrwymiad i fynd i’r afael â chynhwysiant digidol.”

Meddai Mike Johnston, Cyfarwyddwr Prosiect, FibreSpeed, "Fyddai ymrwymiad Bluenowhere ddim yn bosibl oni bai am y buddsoddiad sydd wedi cael ei wneud eisoes yn rhwydwaith capasiti uchel FibreSpeed ar draws Gogledd Cymru, yn ogystal â pharodrwydd Cyngor Sir Ynys Môn i gydweithio efo Bluenowhere a FibreSpeed Cyfyngedig. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru’n rhagweld ar hyd yr amser y byddai gweithredwyr diwifr cyflym yn medru cyrraedd allan o rwydwaith ffibr craidd FibreSpeed i ardaloedd y tu hwnt i’r parciau busnes strategol, nid yn unig er mwyn busnesau ond hefyd er mwyn defnyddwyr. Mae hwn yn gam mawr ymlaen tuag at gyflawni’r weledigaeth honno ac rydym yn falch iawn i fod yn cydweithio efo nhw.”

DIWEDD

NODIADAU I OLYGYDDION

YNGLŶN Â BLUENOWHERE

Darparwr Gwasanaeth FibreSpeed newydd yw Bluenowhere Cyf a bu’n gweithio gyda FibreSpeed a Chyngor Sir Ynys Môn ers rhai misoedd ar gynlluniau i ledaenu isadeiledd band llydan y genhedlaeth nesaf ar gyfer Ynys Môn ac ardal y Fenai.

Ar ôl cynnal arbrofion helaeth gyda thechnoleg ddiwifr yn ystod 2008/09, mae Bluenowhere Cyf wedi sicrhau sbectrwm radio ardderchog yng Ngogledd Cymru a’i fwriad yw lledaenu rhwydwaith band llydan diwifr o’r radd flaenaf. Bydd hyn ar sail gyfanwerthol, mynediad agored, gan gynnig dewis gwahanol i’r isadeiledd BT presennol.

Bluenowhere Ltd
Unit 36, 88-90 Hatton Garden
London, EC1N 8PN

+44 (0)844 887 0636
contact@bluenowhere.net
www.bluenowhere.net

Bydd y rhwydwaith yn defnyddio rhwydwaith ffibr optig FibreSpeed, gyda'i fand llydan iawn, fel asgwrn cefn, ac yn dosbarthu'r capasiti drwy ddefnyddio'r dechnoleg band llydan ddiweddaraf ar hyd ac ar led y rhanbarth.

www.bluenowhere.net / http://notspots.bluenowhere.net

YNGLŶN Â FIBRESPEED

FibreSpeed Cyf sy'n gweithredu'r rhwydwaith ffibr mynediad agored, sy'n dod â gwasanaethau cyfathrebu cyflym, fforddiadwy, i fusnesau ledled Gogledd Cymru, drwy rwydwaith o dros 320 cilometr o geblau ffibr optig, sy'n cysylltu Caergybi yn Ynys Môn drwy goridor Gogledd Cymru i lawr i Wrecsam ac i fyny at asgwrn cefn ffibr y Deyrnas Unedig ym Manceinion.

Menter gyhoeddus-breifat yw prosiect FibreSpeed gyda chyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Geo Networks Cyf. Mae'r partneriaid wedi ymrwymo i fuddsoddiad o £30 miliwn dros 15 mlynedd.

www.fibrespeed.co.uk

YNGLŶN Â'R "CYNLLUN CEFNOGI BAND LLYDAN"

Menter Cynulliad Cymru yw'r Cynllun Cefnogi Band Llydan, sydd wedi ei anelu at yr unigolion, y busnesau a'r cyrff 3^{ydd} sector hynny mewn cymunedau gwledig nad ydynt yn medru cael mynediad o gwbl at y band llydan, neu ond ar gyflymder o lai na 512 cilobeit yr eiliad (kbps), a adwaenir fel 'lleoedd sydd ddim yn bod' o ran y band llydan.

Bydd y cynllun yn darparu cyllid hyd at £1,000 i bob ymgeisydd i dalu'r costau cychwynnol o brynu datrysiad band llydan lle mae'r darparwyr presennol wedi methu â darparu gwasanaeth.

www.wales.gov.uk/broadband

YNGLŶN Â'R YMRWYMIAD GWASANAETH CYFFREDINOL 2 MEGABEIT

Mynegodd y Llywodraeth flaenorol, yn ei hadroddiad *Digital Britain,* ymrwymiad i sicrhau y byddai modd i bawb gael mynediad at gyswllt band llydan 2 megabeit yr eiliad (Mbps) erbyn mis Rhagfyr 2012.

Y mis diwethaf cyhoeddodd y Llywodraeth newydd y câi'r ymrwymiad hwn ei wthio'n ôl o hyd at 3 blynedd i fis Rhagfyr 2015.

Bluenowhere Ltd
Unit 36, 88-90 Hatton Garden
London, EC1N 8PN

+44 (0)844 887 0636
contact@bluenowhere.net
www.bluenowhere.net

Mae'r corff a sefydlwyd gan y llywodraeth ddiwethaf, Broadband Delivery UK (BDUK), yn tendro am 3 phrosiect peilot mewn cymunedau gwledig penodedig er mwyn asesu datrysiadau addas, cyn creu proses gaffael gyda'r bwriad o alluogi'r llywodraeth i brynu datrysiadau i gyflawni'r Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol.

Amcangyfrifir y bydd y prosiectau peilot hyn yn costio rhwng £5M a £10M yr un, ac y cânt eu cynnal y flwyddyn nesaf, ac felly byddant yn gohirio unrhyw weithredu am un flwyddyn o leiaf.

http://www.bis.gov.uk/bduk